


Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd



Gweithio mewn Partneriaeth Ysgol a Theulu




Beth mae'r Cod ADY yn ei ddweud am rieni a gofalwyr...



- Mae gan rieni wybodaeth allweddol ac mae ganddynt rôl hollbwysig yn addysg eu plentyn.
- Mae ganddynt gryfderau, gwybodaeth a phrofiad unigryw i gyfrannu at edrych ar anghenion ar y cyd, a'r ffordd orau o'i gynorthwyo.
- Ni ddylai fod yna ragdybiaeth am yr hyn y mae rhieni'n gallu neu ddim yn gallu ei wneud i gefnogi dysgu'r plentyn.
- Mae gan bob rhiant hawl i gymryd rhan mewn penderfyniadau am addysg eu plentyn, a dylid mabwysiadu agwedd gadarnhaol tuag at gynnwys rhieni.

Yn gryno, mae teuluoedd yn hanfodol o ran helpu'r ysgol i wneud penderfyniadau am y cymorth sydd ei angen ar blentyn.

Beth y gall teulu ei ddisgwyl gan eu hysgol a'u hawdurdod lleol....



Mae'r siart llif hon yn amlinellu'r broses y bydd YGG Llangynwyd/Sir Penybont yn mynd trwyddi i wneud adolygiad neu benderfyniad ynghylch a oes gan ddysgwr ADY.




Fel rhiant / gofalwr, rhaid i'r ysgol ofyn i chi am eich barn wrth wneud / adolygu penderfyniad am ADY.

Mae gennych hawl i gael cymorth bob amser, fel eich bod chi a'ch plentyn yn teimlo'n rhan lawn o'r broses hon.

DECISION ON ADDITIONAL LEARNING NEEDS

When it is brought to the attention of, or otherwise appears to a maintained school, that a pupil may have ALN and does not have an IDP, the following process **must** be followed (Different arrangements apply if student is dual registered, looked after, detained, an English resident or an EHC plan is being maintained):



Os bydd yr ysgol neu'r Awdurdod Lleol yn penderfynu **nad oes** gan eich plentyn ADY, efallai y byddwch yn anghytuno neu'n anfodlon â'r penderfyniad hwn. Mae'r siart llif hon yn dangos beth mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ei wneud i sicrhau y gwrandewir arnoch.


Bydd eich unigolyn cyswllt yn eich cefnogi trwy unrhyw achos o anghytuno fel eich bod yn cael eich hysbysu, eich cefnogi, a bod pobl yn gwrandao arnoch.

Os gofynnwch, bydd eich Awdurdod Lleol yn trefnu i chi gael mynediad at **wasanaeth eirioli annibynnol** os byddwch yn teimlo bod angen i chi gael cymorth gan rywun y tu allan i'r ysgol neu'r Awdurdod Lleol.




DECISION BY MAINTAINED SCHOOL THAT CHILD OR YOUNG PERSON DOES NOT HAVE ADDITIONAL LEARNING NEEDS

Where a maintained school decides a pupil does not have ALN, the following sets out what must be done



RESPONSE TO NOTIFICATION



Beth allwch chi ei wneud nesaf?



Cysylltwch â'ch Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) os ydych yn ansicr o gwbl ar y canlynol a hoffech drafod ymhellach:

- Adolygu'r cynnydd hyd yma fel eich bod yn teimlo'ch bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am bopeth
- Cymorth ychwanegol i'ch helpu gymryd rhan yn llawn yn y broses
- Cael gwybodaeth am ddefnyddio gwasanaethau eirioli annibynnol gan yr Awdurdod Lleol.

